Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Meithrinfa Ddydd Little Footsteps
# Tŷ Blakedown
# Heol Mostyn
# Ystâd ddiwydiannol Village Farm
# Y Pîl
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF33 6BJ

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2016**

## Cyd-destun

Meithrinfa ddydd annibynnol yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yw Little Footsteps (Porthcawl) Ltd.  Agorwyd y feithrinfa ym Mai 2015 ar ôl adleoli o Rest Bay.  Mae'n cynnig gofal dydd a gofal ar ddechrau a diwedd dydd i blant rhwng 0 oed ac 11 oed, ac addysg i blant rhwng tair a phedair oed.  Mae'r perchnogion yn ymarferwyr cymwys sy'n berchen ar leoliad arall ym Mhorthcawl.  Maent yn rhannu eu hamser rhwng y ddau leoliad gyda chymorth tri dirprwy rhan-amser.

Mae chwech o blant ar y gofrestr rhwng tair a phedair oed, sy'n cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol ar gyfer addysg ran-amser, ac roedd pedwar ohonynt yn bresennol yn ystod yr arolygiad.  Daw'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi Saesneg ac maent yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr neu mewn awdurdodau lleol cyfagos.

Dyma'r tro cyntaf i Estyn arolygu'r lleoliad.  Nid yw Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) wedi arolygu'r lleoliad ers iddo gofrestru fel darparwr gofal ym Mai 2015.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae ymarferwyr yn rhoi ystod ddychmygus o brofiadau i blant
- Mae'r cynllunio a'r addysgu yn dda ar y cyfan
- Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion a gweithgareddau wedi eu harwain gan blant
- Mae ymarferwyr yn dangos disgwyliadau uchel o ymddygiad ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm
- Mae ystafelloedd yn groesawgar ac yn cynnwys adnoddau sy'n briodol i oedran

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae rolau a chyfrifoldebau yn y feithrinfa wedi eu diffinio'n dda
- Mae rheolwyr yn adnabod y feithrinfa'n dda ac maent wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth yn barhaus
- Mae'r lleoliad wedi meithrin partneriaethau cryf â rhieni mewn cyfnod cymharol fyr ers i'r feithrinfa agor
- Mae gan y lleoliad gysylltiadau da â'r gymuned leol
- Mae arweinwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn effeithiol
- Mae gan y lleoliad ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i gefnogi dysgu'r plant yn dda

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cyflymdra sesiynau yn briodol i oedran a chyfnod datblygiadol y plant

A2 Gwneud defnydd gwell o wybodaeth asesu i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant

A3 Ymestyn cyfleoedd i ymarferwyr elwa ar ddatblygiad proffesiynol parhaus

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | ddim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: ddim yn berthnasol**

**Lles: ddim yn berthnasol**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a'u lles. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd ar hyn heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn darparu ystod ddychmygus o brofiadau yn seiliedig ar themâu sy'n ennyn diddordeb plant ac yn eu cymell i ddysgu, fel straeon tylwyth teg a dinosoriaid. Mae cynllunio yn gynhwysfawr a ffocysedig, ac mae'n cwmpasu holl feysydd Fframwaith y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cynnwys cydbwysedd da o weithgareddau dan gyfarwyddyd oedolyn a gweithgareddau wedi eu harwain gan blant, fel creu sliperi gwydr hudol ac ymchwilio yn yr hambwrdd trysor. Yn ddiweddar, mae cyfranogwyr wedi cwblhau adolygiad manwl o gynllunio, ac o ganlyniad, mae plant wedi gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu. Ceir cyfleoedd effeithiol i blant gyfrannu ar lafar at gynllunio.

Mae ymarferwyr yn darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r gornel lyfrau yn cynnwys adnoddau da ac fe gaiff y plant gyfleoedd gwerth chweil i ddarllen yn annibynnol. Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau i gefnogi datblygiad cysyniadau mathemategol plant yn effeithiol, fel lliw a siâp. Gwnânt ddefnydd da o ganeuon a rhigymau, fel 'five currant buns' i gynorthwyo medrau cyfrif cynnar plant.

Mae'r lleoliad yn cynnig ystod gynhwysfawr o adnoddau i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth dda o offer i fodloni anghenion corfforol y plant, er enghraifft beiciau, ardal arddio a llithren. Maent yn cynllunio gweithgareddau gwerth chweil i ddatblygu medrau meddwl a medrau creadigol plant er mwyn datblygu dealltwriaeth plant o'r byd y maent yn byw ynddo, er enghraifft gwneud diodydd a phobi yn y gegin fwdlyd.

Mae ymarferwyr yn cynllunio sesiynau amser cylch difyr sy'n hyrwyddo defnydd plant o'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus, er enghraifft cyfrif yn Gymraeg a chanu caneuon am y tywydd a chyfarchion. Mae ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth o ymweliadau a digwyddiadau trefnus i ddathlu diwylliant a thraddodiadau Cymru fel teithiau i ystâd y parc gwledig lleol.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o'r ymarferwyr yn gynnes a chroesawgar tuag at y plant, gan greu awyrgylch hamddenol a hapus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad, ac maent yn aml yn rhoi adborth ar lafar i ganmol ymddygiad a dysgu. Mae gwaith tîm cryf yn cynorthwyo plant yn effeithiol yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn fedrus yn cynorthwyo plant i wneud dewisiadau ynglŷn â pha offer i'w ddefnyddio a ble i chwarae. Maent yn ymyrryd yn sensitif i gefnogi dysgu trwy holi ac yn neilltuo amser yn rheolaidd i siarad â phlant, a gwrando arnynt. Mae ymarferwyr yn defnyddio teganau yn effeithiol i ennyn diddordeb plant yn ystod sesiynau gweithgareddau â ffocws. Gwneir defnydd gwerthfawr o'r ardal awyr agored ym mhob tywydd i gefnogi datblygiad corfforol plant a'u diddordeb yn y byd naturiol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae sesiynau'n symud yn rhy araf, a bydd plant yn cael eu cadw ar y carped yn rhy hir. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o ganeuon i ddatblygu medrau gwrando plant. Fodd bynnag, mae defnyddio stori wedi'i recordio yn lleihau cyfleoedd i ryngweithio'n effeithiol â phlant.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o Broffil y Cyfnod Sylfaen i gofnodi cynnydd a chamau datblygu plant. Maent wedi datblygu dull dibynadwy i asesu a chofnodi cynnydd i'w ddefnyddio gyda gweithgareddau ffocysedig. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi targedau ar gyfer plant unigol a mesur eu cynnydd. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio gwybodaeth asesu yn effeithiol i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu plant.

Mae ymarferwyr yn annog plant i adrodd yn ôl ar yr hyn y maent yn ei fwynhau fwyaf bob dydd er mwyn arfarnu sesiynau a chynllunio i gofnodi diddordeb plant. Mae hyn yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau meddwl.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda am gynnydd a lles eu plentyn trwy adborth rheolaidd ac anffurfiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae ymarferwyr yn annog lefelau uchel o annibyniaeth trwy weithgareddau fel golchi dwylo a glanhau dannedd gyda phlant. Maent yn hyrwyddo ymddygiad da yn llwyddiannus gan blant mewn modd tawel a chyson. Mae ymarferwyr yn annog rhannu adnoddau, fel offer peintio a byrddau sialc, yn dda trwy drafod a dangos enghreifftiau. Mae darpariaeth awyr agored wedi ei threfnu'n dda iawn ac yn annog ymarfer corff.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol a chymdeithasol o'r byd y maent yn byw ynddo. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu hadau yn yr ardd i blant fwydo'r adar. Rhoddir cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill trwy ddathlu digwyddiadau fel Dydd Gŵyl Dewi, y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd a Diwali. Mae'r lleoliad yn gwneud cynnydd da â datblygu cysylltiadau â'r gymuned leol yn dilyn ei hadleoli yn ddiweddar. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynaliadwyedd yn foddhaol, a rhoddir cyfleoedd perthnasol i blant ddysgu am ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau cryf ar waith i nodi a chynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol.  Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad y plentyn, ac mae arweinwyr wedi sefydlu cysylltiadau da gyda gweithwyr proffesiynol eraill fel seicolegydd addysg a swyddog mynediad a chynhwysiant awdurdod lleol.  Mae trefniadau ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae gan y lleoliad ethos cefnogol a theuluol lle caiff plant eu gwerthfawrogi fel unigolion.  Mae gan ymarferwyr gymwysterau a phrofiad da o ran darparu ar gyfer dysgu a datblygiad medrau plant.  Maent yn darparu gwerthoedd pwysig fel tegwch a chydraddoldeb, er enghraifft trwy annog plant i fynegi barn ynglŷn â'r hyn y maent yn ei wneud a pharchu eu dewisiadau.  Mae ymarferwyr yn rhoi dewisiadau sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu, er enghraifft yn ystod amser byrbryd.  Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i hyrwyddo cyfle cyfartal i bob plentyn.

Mae'r lleoliad yn ddiogel, wedi ei addurno'n atyniadol ac yn cael ei gynnal yn dda.  Mae arddangosfeydd o ansawdd da yn dathlu gwaith plant mewn modd deniadol.  Mae ymarferwyr yn defnyddio'r gofod yn dda i fodloni anghenion y plant.  Mae llawer o adnoddau o ansawdd da y maent yn mwynhau eu defnyddio ac sy'n cefnogi eu dysgu'n dda.  Er enghraifft, mae plant yn cydweithredu'n bwrpasol wrth adeiladu â blociau adeiladu i wneud castell.  Mae amrywiaeth ddychmygus o adnoddau yn yr hambwrdd dŵr yn datblygu medrau cydsymud plant yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r llyfrgell gymunedol i wella cornel ddarllen y plant, ac yn eu tro, yn datblygu medrau darllen cynnar.  Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol.  Er enghraifft, yn sgil ymweliad cyffrous â Pharc Margam, datblygwyd gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r byd.  Mae'r ardd yn yr awyr agored yn cynnig cyfleoedd effeithiol ar gyfer chwarae rôl, palu a lle i redeg.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r ddau berchennog yn rhannu rheolaeth y feithrinfa o ddydd i ddydd yn effeithiol.  Mae ganddynt weledigaeth gref i ddarparu'r safon orau o ofal ac addysg i blant yn y lleoliad, ac yn herio a chynorthwyo ymarferwyr yn barhaus i wneud eu gorau i gyflawni hyn.  Trwy eu hymroddiad a'u gwaith caled, maent yn llwyddo i greu ethos cadarnhaol yn y lleoliad lle mae ymarferwyr a phlant yn gwybod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae rolau a chyfrifoldebau yn y feithrinfa wedi eu diffinio'n dda, ac mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda.  Mae'r perchnogion yn cyfathrebu â'i gilydd a'u dirprwyon yn llwyddiannus trwy gyfarfodydd rheolaidd, sy'n cael eu cydlynu'n effeithiol.  Gyda'i gilydd, mae'r rheolwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob agwedd ar waith y lleoliad ac maent yn cynorthwyo ymarferwyr i fodloni'r rhain trwy'r system rheoli perfformiad sefydledig.

Mae rheolwyr yn adolygu polisïau'r lleoliad yn rheolaidd, gan adlewyrchu newidiadau mewn arweiniad a deddfwriaeth yn briodol. Mae ganddynt systemau da ar waith i rannu gwybodaeth am newidiadau mewn polisi, ac maent yn arddangos polisïau yn ddefnyddiol ar draws y lleoliad.

Mae rheolwyr wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda rhieni, gan gyfrannu at gynnal y lleoliad yn effeithiol. Maent yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan wneud yn siŵr bod plant yn cael cyfleoedd dysgu rheolaidd a gwerth chweil yn yr awyr agored a bod ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae rheolwyr yn adnabod y feithrinfa'n dda ac maent wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth yn barhaus. Trwy fonitro rheolaidd, maent yn monitro cryfderau a meysydd i'w datblygu o ran cynnal y lleoliad yn effeithiol o ddydd i ddydd. Mae ymarferwyr yn gweithredu yn unol â chanfyddiadau yn brydlon, fel sicrhau bod dyddiaduron dyddiol plant yn cael eu cwblhau'n briodol. Mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o adolygiadau gan asiantaethau allanol fel AGGCC, ac yn gweithredu'n brydlon yn unol â'u hargymhellion. Maent yn croesawu cyngor gan yr awdurdod lleol ac yn ei ddefnyddio'n briodol i godi safon yr addysgu a'r dysgu yn y lleoliad. Er enghraifft, gan ddefnyddio arweiniad gan yr awdurdod lleol, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o Broffil newydd y Cyfnod Sylfaen i helpu i fonitro ac asesu cynnydd plant.

Mae'r lleoliad wedi agor safle newydd yn ddiweddar, ac mae rheolwyr newydd ddechrau cylch hunanarfarnu newydd. Maent wedi cwblhau adroddiad hunanarfarnu yn ddiweddar, sydd wedi eu helpu i nodi targedau datblygu gwerth chweil ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhain yn adeiladu ar dargedau datblygu o'r safle blaenorol yn effeithiol, fel gwella medrau Cymraeg plant, gan sicrhau bod arbenigedd ymarferwyr yn datblygu'n gyson. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun datblygu yn nodi graddfeydd amser penodol na gofynion cyllid tra chywir yn ddigon clir i'w galluogi i fonitro cynnydd cystal ag y gallent.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi meithrin perthnasoedd cryf gyda rhieni mewn cyfnod cymharol fyr ers iddo agor. Mae rheolwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr yn y lleoliad ac yn eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Er enghraifft, maent yn rhannu gwybodaeth am themâu a thestunau, yn ogystal ag unrhyw newidiadau o ran staff trwy gylchlythyrau rheolaidd.

Mae rheolwyr yn deall pwysigrwydd meithrin cysylltiadau cryf gydag ysgolion cynradd lleol ac mae ganddynt berthynas sefydledig ag un o'r ysgolion lleol. Mae hyn yn helpu i baratoi plant ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn briodol.

Mae'r lleoliad yn gwerthfawrogi ei bartneriaeth â'r awdurdod lleol a gydag AGGCC, ac yn gwneud y mwyaf o'r cyngor a'r cymorth a gaiff ganddynt. Mae plant yn elwa'n dda ar gysylltiadau'r lleoliad â'r gymuned leol, er enghraifft eu hymweliadau rheolaidd â'r llyfrgell leol. Ceir partneriaeth agos â'r feithrinfa arall sy'n eiddo i'r perchnogion, ac mae plant yn elwa ar ddefnyddio adnoddau a rennir.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r perchnogion yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff cymwys i gefnogi dysgu'r plant yn dda. Maent yn defnyddio ymarferwyr yn effeithiol, gan sicrhau bod ymarferwyr yn cael amser i gwblhau cynllunio a chofnodi asesiadau. Gwnânt ddefnydd da o arbenigedd unigol, ac maent yn trefnu oriau staff yn ofalus i roi parhad i'r plant. Mae'r lleoliad yn dechrau cydweithio â'i feithrinfa arall i wella hyder a dealltwriaeth ymarferwyr. Er enghraifft, mae arweinwyr cyn-ysgol yn cyfarfod i ddangos arfer dda. Mae gwerthusiadau rheolaidd o ymarferwyr yn helpu i wneud yn siŵr bod pob un o'r ymarferwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf trwy gael hyfforddiant hanfodol, er enghraifft mewn cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Fodd bynnag, yn gyffredinol, caiff ymarferwyr lai o gyfleoedd i ychwanegu at eu gwybodaeth a'u harbenigedd o ran y blynyddoedd cynnar.

Mae'r perchnogion yn cynllunio gwariant yn ofalus ac yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigonedd o adnoddau o ansawdd da. Maent yn rheoli'r gyllideb yn effeithiol i dalu eu costau cynnal wrth iddynt sefydlu'r feithrinfa ar safle newydd.

Yng ngoleuni'r cyfleoedd dysgu o ansawdd da a ddarperir ar gyfer y plant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 o ymatebion.  Ni ddangosir unrhyw ddata.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Gibbon | Arolygydd Cofnodol |
| Sheila Birkhead | Arolygydd Tîm |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |